

Y Cyng. Debbie Wilcox
Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd

13 Mawrth 2017

Annwyl Debbie

Menter #SeneddCasnewydd

Rwy'n ysgrifennu i ddiolch ichi am gytuno mewn egwyddor i gwrdd ag Aelodau Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o fenter #SeneddCasnewydd. Mae'n ddrwg gennyf nad yw'r dyddiaduron wedi caniatáu i hyn ddigwydd.

Fel y gwyddoch, ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor yn cynnal **ymchwiliad** sy'n ystyried y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Fel rhan o'r broses o gasglu tystiolaeth, rydym yn treialu panel bach o ddinasyddion – a hynny am y tro cyntaf yn y Cynulliad - i nodi, ar ddechrau'r ymchwiliad, ganfyddiadau a disgwyliadau'r rhai sy'n cymryd rhan o'r modd y mae'r sefydliadau'n cydweithio a'r berthynas rhyngddynt, ac i geisio'u barn am ddysgu gan sefydliadau eraill.

Mae'r panel yn cynnwys chwe aelod sy'n amrywio'n ddemograffig o ran oedran, lleoliad, cefndir economaidd-gymdeithasol, a rhyw. Maent rhwng 16 a 59 oed ac yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru. Er mwyn cael ystod eang o safbwyntiau, rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfranogwyr wedi cymryd rhan yn unrhyw un o ymgynghoriadau blaenorol y Cynulliad Cenedlaethol, ac nad oes ganddynt, o reidrwydd, unrhyw wybodaeth neu ddealltwriaeth flaenorol o gyfansoddiad Cymru.

Ein bwriad yw i sylwadau'r panel roi cyfle i rai agweddau ar waith craffu'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y materion a godir.



Yn y Cynulliad hwn, mae'r Pwyllgor wedi rhoi blaenoriaeth i hybu dealltwriaeth y cyhoedd o faterion cyfansoddiadol ac ehangu dylanwad y Pwyllgor.

Hyd yma, wrth geisio creu cysylltiadau, mae'r Pwyllgor hwn a'i ragflaenydd wedi canolbwyntio ar randdeiliaid cyfansoddiadol allweddol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i ymestyn hyn yn ehangach gan gydnabod y bydd y gynulleidfa hon yn newid yn ôl y gwaith a fydd yn mynd rhagddo. Felly, rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau arloesol o weithio lle bo hynny'n bosibl, ac ystyried y ffyrdd gorau o fanteisio ar bob cyfle posibl i gynnwys dinasyddion yn ein gwaith. Ni fyddwn yn cyfyngu ein hunain i unrhyw un dull o weithio a byddwn yn chwilio am ddulliau arloesol o ymgysylltu.

Diddorol iawn felly, oedd clywed am eich bwriad chi i fwrw ymlaen â menter i droi Casnewydd yn Ddinas Democratiaeth. Byddwn yn awyddus i glywed rhagor am y weledigaeth gyffredinol: pam rydych wedi dewis datblygu'r fenter hon a sut y bydd Casnewydd yn elwa ohoni. Deallaf eich bod chithau hefyd am sefydlu panel dinasyddion i dreialu amrywiaeth o ddulliau digidol, cydweithredol newydd i hyrwyddo democratiaeth. Byddwn yn falch o glywed am eich profiadau o ymgysylltu â'r cyhoedd a byddwn yn croesawu unrhyw gyngor y gallwch ei rannu ynghylch arfer gorau.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

